# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 18/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)2870(FM), yn ôl*

### Gwerth Ychwanegol Crynswth

**C12 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am werth ychwanegol crynswth Cymru? OAQ(3)2860(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ffigurau diweddaraf gwerth ychwanegol crynswth (GYC) Cymru yn dangos bod y GYC yn £45.6 biliwn yn 2008, sef £15,237 y pen a 74.3 y cant o gyfartaledd y DU.

### Nyrsys Ysgol

**C13 Val Lloyd :** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu nyrsys ysgol yng Nghymru? OAQ(3)2869(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r nod o wireddu'r ymrwymiad 'Cymru'n Un' mewn perthynas â nyrsys ysgol o fewn ein cyrraedd bellach. Bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lansio fersiwn i blant a phobl ifanc o'r polisi hwn cyn bo hir a bydd yn gwneud cyhoeddiadau pellach ynghylch rhoi'r polisi hwn ar waith bryd hynny.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)2859(FM), yn ôl*

### Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

**C15 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref? OAQ(3)2867(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ers i'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref ddechrau yn 2000, mae dros £110 miliwn wedi'i gwario i helpu dros 105,000 o aelwydydd yng Nghymru gyda mesurau gwresogi ac inswleiddio. Bydd y contract cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2011 ac mae'r broses o gaffael y contractwr newydd i gyflawni'r cynllun ar fin dechrau.